**MINUTES OF THE RECONVENED MEETING OF POWYS COUNTY COUNCIL HELD AT COUNTY HALL, LLANDRINDOD WELLS ON WEDNESDAY 5TH MARCH, 2014**

PRESENT: County Councillor J.H. Brunt (Chair)

County Councillors M.C. Alexander, P.J. Ashton, D. Bailey, G.R. Banks, G. Bowker, R.G. Brown, K.W. Curry, A.W. Davies, C. Davies, D.E. Davies, L.R.E. Davies, M.J.B. Davies, S.C. Davies, S. Davies, M.J. Dorrance, D.O. Evans, V.E. Evans, W.J. Evans, W.A. Fitzpatrick, M.R. Harris, S.M. Hayes, A. Holloway, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, D.C. Jones, D.R. Jones, E. Michael Jones, E.M. Jones, G.M. Jones, J.R. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, F.H. Jump, H. Lewis, P.E. Lewis, M.C. Mackenzie, D.J. Mayor, S. McNicholas, P.J. Medlicott, D.W. Meredith, R.H. Mills, E.T. Morgan, J.G. Morris, W.J.T. Powell, D.R. Price, G.D. Price, P.C. Pritchard, G.W. Ratcliffe, K.M. Roberts-Jones, J.G. Shearer, K.S. Silk, K.F. Tampin, A.G. Thomas, D.G. Thomas, D.A. Thomas, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.G. Turner, T.J. Van Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams, G. Williams, J.M. Williams, S.L. Williams and A. York.

| 1. | APOLOGIES | CC26– 2014 |
|---|---|---|

Apologies for absence were received from County Councillors L.V. Corfield, E.R. Davies, R.I. George, P. Harris, E.A. Jones, G. Morgan and W.D. Powell.

| 2. | DECLARATIONS OF INTEREST | CC27 – 2014 |
|---|---|---|

The following declarations of interest were made:
County Councillor M.C. Alexander, personal and prejudicial interest as a close relative works in an ALN unit and personal not prejudicial interest as an LEA appointed governor and member of the Management Committee of Caereinion Leisure Centre.
County Councillor P.J. Ashton, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D. Bailey, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor G.R. Banks, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, uncle of child in school and as a trustee of the Judge's Lodgings Presteigne.
County Councillor G.J. Bowker, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor R.G. Brown, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor J.H. Brunt, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and as a trustee of PAVO.
County Councillor D.E. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and parent of children attending Welshpool High School.
County Councillor L.R.E. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and grandparent of child in school.
County Councillor S.C. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and Council appointed representative on Care and Repair and a member of GMB.

County Councillor S. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor M.J. Dorrance, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and member of the GMB.
County Councillor D.E. Evans, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and grandparent of children in school.
County Councillor V.E. Evans, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor W.J. Evans, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor W.A. Fitzpatrick, personal and prejudicial interest as relative affected by budget proposals on social care.
County Councillor M.R. Harris, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and grandparent of child in school.
County Councillor A. Holloway, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.C. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.R. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, member of Management Committees of Welshpool and Llanfair Caereinion Leisure Centres and relief meals on wheels driver.
County Councillor Eldrydd M. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, grandchildren at schools member of Management Committees of Llanfair Caereinion and Llanfyllin Leisure Centres.
County Councillor E. Michael Jones, personal and pecuniary interest as a director of a day care centre.
County Councillor J. Jones personal and prejudicial interest as close relative affected by budget proposals and personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor M.J. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor W.T. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor F.J. Jump personal non prejudicial interest as volunteer driver for meals on wheels.
County Councillor H. Lewis, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and a personal and prejudicial interest as a County farm tenant.
County Councillor M. Mackenzie, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and trustee of Wyeside Arts Centre.
County Councillor D.J. Mayor, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, close relative works as outreach worker.
County Councillor D.W. Meredith, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, member of BBNPA, Board member of Theatr Brycheiniog, member of Brecon Town Council and retired member of UNISON.
County Councillor S. McNicholas, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor P.J. Medlicott, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor E.T. Morgan, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.

County Councillor W.J.T. Powell, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.R. Price, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor P.C. Pritchard, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor G.W. Ratcliffe, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor K.M. Roberts-Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor J. Shearer, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.A. Thomas, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.G. Thomas, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, bus pass holder, WI member.
County Councillor R.G. Thomas, personal non prejudicial interest as close relative involved with North Powys Youth Orchestra
County Councillor W.B. Thomas, personal and prejudicial interest in ALN through involvement with dyslexia organisation and a personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor T.G. Turner, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor T.J. Van Rees, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and member of the Management Committee of Builth Wells Leisure Centre and Chairman of Royal Welsh Regimental Museum.
County Councillor G.P. Vaughan, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and personal and prejudicial interest as a school transport operator.
County Councillor D.H. Williams, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and personal and prejudicial interest as a close personal relative works in an ASD unit.
County Councillor G. Williams, personal non prejudicial interest as a governor [non LEA] of Garth School.
County Councillor J.M. Williams, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, member of UNISON trade union, trustee of Bro Ddyfi Advice Centre, Machynlleth Community Children's Partnership, Community Action Machynlleth who have received funding from the Adult Social Care grant.
County Councillor S.L. Williams, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor A. York, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and trustee of Wyeside Arts Centre and a personal and prejudicial interest as a trustee of PAVO not appointed by Council.

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **BUDGET FOR 2014-15, MEDIUM TERM FINANCIAL PLAN 2014-17 AND CAPITAL PROGRAMME FOR 2014-19** | **CC28 – 2014** |

The Portfolio Holder for Finance presented the Budget report which incorporated the changes as a result of the Group Leaders' meeting held on 28th February, 2014

[changes filed with the signed minutes]. The Portfolio Holder advised that two options were presented for consideration - Option 1 Budget with a recommended Council Tax increase of 4.5% with £224,000 being used in 2014/15 from reserves and Option 2 budget with a recommended Council Tax increase of 4.95% with no use of reserves.

A number of members raised concerns regarding ceasing the production of Red Kite and questioned what other options for communicating with the public were being considered. The Leader of the Powys Independence Alliance asked if the Leader would meet with Group Leaders to review how the Council communicated with the public. The Leader confirmed that he was happy to do this. The Portfolio Holder for HR, IT and Communications advised the Council that there were other more cost effective means of communicating with the public.

Members expressed the need for all services to consult and involve members in proposed changes to services. The Leader and Portfolio Holders confirmed that members would be involved and there would be full consultation with all bodies once the budget process had been completed.

In response to concerns raised regarding day centres the Portfolio Holder for Adult Social Services advised that there were currently no plans to close day centres but there was a need to modernise the way in which many services were provided to meet the changing needs of people and also to introduce best practice. However, he could not guarantee that this would not have an effect on day centres in the next few years. In respect of day centres for people with learning difficulties the Portfolio Holder confirmed that there were no proposals to close these centres but to enhance services.

Members raised concerns that the burden of the proposed budget was placed on the poor in the County. Members questioned why more could not be used from reserves so that services could be supported and that any Council Tax increase could be kept to a minimum. The Strategic Director, Resources advised that the Welsh Audit Office issued general guidance that reserves should be between 3% and 5% of the net budget. At the end of this financial year the Council's reserves would be 4.39%. He advised that there was a risk attached to the proposed budget, in that if the proposed savings could not be made, reserves would need to be used to cover the financial gap.

A number of members considered that deferring consideration of the budget had led to some concessions but it still lacked clarity and detail.

County Councillor T. Van-Rees left the meeting at 11.50 a.m.

In response to a question regarding the future proposed cuts in funding for theatres the Portfolio Holder for Commissioning and Improvement advised that discussions would start as soon as possible with theatre management and interested bodies. In response to a question regarding the preparation of the budget the Leader indicated that he wished to start the process sooner for the next financial year, probably from April 2014.

Members expressed concerns that access to some services such as meals on wheels had been frozen pending the outcome of the budget. The Portfolio Holder for Adult Social Services confirmed that this had been in error and the position had been reversed i.e. access was not frozen. During the debate Members also raised concerns regarding proposals relating to a range of services including leisure services, grants, Wyeside Caravan Park, the creation of new posts and County Archives.

Option 1 Budget for 2014/15 with an increase in Council Tax of 4.5% was duly proposed and seconded.

| **RESOLVED:** | **Reason for Decision:** |
|---|---|
| **1. That Option 1 Budget for 2014/15 shown in the Financial Resource Model in Appendix B is agreed.** | **Statutory Requirement** |
| **2. That a Council Tax increase of 4.5% is proposed for 2014/15.** | **Statutory Requirement** |

Recommendations 3-9 were proposed and duly seconded.

| **RESOLVED:** | **Reason for Decision:** |
|---|---|
| **3. That the Medium Term Financial Plan for 2015/16 and 2016/17 be agreed in principle.** | **To aid business planning and development of the budget over a three year period** |
| **4. That the authorised borrowing limit for 2014/15 as required under section 3(1) of the Local Government Act 2003 be £241.7m** | **Statutory Requirement** |
| **5. That the Prudential Indicators for 2014/15 be approved.** | **Statutory Requirement** |
| **6. That Option 1 Regulatory Model for the calculation of MRP in relation to Supported Borrowing be used.** | **Statutory Requirement** |
| **7. That Option 3 Asset Life Annuity Method for the calculation of MRP in relation to Prudential Borrowing be used.** | **Statutory Requirement** |
| **8. That the guidance that allows for MRP to be deferred for assets under construction be used.** | **To match the cost of MRP to the use of an asset by a service.** |
| **9. That the Capital Programme for 2014/15 in Appendix D is accepted.** | **Statutory Requirement** |

County Councillor H. Lewis having declared a pecuniary interest left the Chamber when the following was considered.

Recommendation 10 was proposed and duly seconded.

| RESOLVED: | Reason for Decision: |
|---|---|
| 10. That Strategic Reviews of School Provision and County Farms continue, and that a strategic review in respect of income generation commence as soon as possible with further strategic reviews in other areas to be brought forward for consideration by Cabinet. | To ensure the Council is able to meet the financial challenge resulting from the reducing level of funding. |

J.H. BRUNT
CHAIR

**COFNODION CYFARFOD WEDI'I AILGYNNULL O GYNGOR SIR POWYS, A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD MERCHER 5 MAWRTH 2014**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Sir J.H. Brunt (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander, P.J. Ashton, D. Bailey, G.R. Banks, G. Bowker, R.G. Brown, K.W. Curry, A.W. Davies, C. Davies, D.E. Davies, L.R.E. Davies, M.J.B. Davies, S.C. Davies, S. Davies, M.J. Dorrance, D.O. Evans, V.E. Evans, W.J. Evans, W.A. Fitzpatrick, M.R. Harris, S.M. Hayes, A. Holloway, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, D.C. Jones, D.R. Jones, E. Michael Jones, E.M. Jones, G.M. Jones, J.R. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, F.H. Jump, H. Lewis, P.E. Lewis, M.C. Mackenzie, D.J. Mayor, S. McNicholas, P.J. Medlicott, D.W. Meredith, R.H. Mills, E.T. Morgan, J.G. Morris, W.J.T. Powell, D.R. Price, G.D. Price, P.C. Pritchard, G.W. Ratcliffe, K.M. Roberts-Jones, J.G. Shearer, K.S. Silk, K.F. Tampin, A.G. Thomas, D.G. Thomas, D.A. Thomas, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.G. Turner, T.J. Van Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams, G. Williams, J.M. Williams, S.L. Williams ac A. York.

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC26– 2014 |
|---|---|---|

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir L.V. Corfield, E.R. Davies, R.I. George, P. Harris, E.A. Jones, G. Morgan a W.D. Powell.

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT | CC27 – 2014 |
|---|---|---|

Gwnaed y datganiadau o fuddiant a ganlyn:
Y Cynghorydd Sir M.C. Alexander, buddiant personol a rhagfarnus gan fod perthynas agos yn gweithio mewn uned anghenion dysgu ychwanegol a buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Hamdden Caereinion.
Y Cynghorydd Sir P.J. Ashton, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir D. Bailey, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir G.R. Banks, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, ewythr i blentyn yn yr ysgol ac ymddiriedolwr i Lety'r Barnwr yn Llanandras.
Y Cynghorydd Sir G.J. Bowker, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir R.G. Brown, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir J.H. Brunt, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac ymddiriedolwr i PAVO.
Y Cynghorydd Sir D.E. Davies, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a rhiant i blant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd y Trallwng.
Y Cynghorydd Sir L.R.E. Davies, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a thaid i blentyn yn yr ysgol.

Y Cynghorydd Sir S.C. Davies, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a chynrychiolydd a benodwyd gan y Cyngor ar Ofal a Thrwsio ac aelod o GMB.
Y Cynghorydd Sir S. Davies, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir M.J. Dorrance, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac aelod o GMB.
Y Cynghorydd Sir D.E. Evans, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a thaid i blant yn yr ysgol.
Y Cynghorydd Sir V.E. Evans, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir W.J. Evans, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir W.A. Fitzpatrick, buddiant personol a rhagfarnus gan fod y cynigion cyllidebol ynghylch gofal cymdeithasol yn effeithio ar berthynas.
Y Cynghorydd Sir M.R. Harris, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a nain i blentyn yn yr ysgol.
Y Cynghorydd Sir A. Holloway, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir D.C. Jones, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir D.R. Jones, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, aelod o Bwyllgorau Rheoli Canolfannau Hamdden y Trallwng a Llanfair Caereinion a gyrrwr wrth gefn y gwasanaeth danfon prydau.
Y Cynghorydd Sir Eldrydd M. Jones, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, wyrion mewn ysgolion, ac aelod o Bwyllgorau Rheoli Canolfannau Hamdden Llanfair Caereinion a Llanfyllin.
Y Cynghorydd Sir E. Michael Jones, buddiant personol ac ariannol yn rhinwedd cyfarwyddwr canolfan gofal dydd.
Y Cynghorydd Sir J. Jones, buddiant personol a rhagfarnus gan fod cynigion cyllidebol yn effeithio ar berthynas agos a buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir M.J. Jones, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir W.T. Jones, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir F.J. Jump buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd gyrrwr gwirfoddol ar gyfer y gwasanaeth danfon prydau.
Y Cynghorydd Sir H. Lewis, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a buddiant personol a rhagfarnus yn rhinwedd tenant fferm Sirol.
Y Cynghorydd Sir M. Mackenzie, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac ymddiriedolwr i Ganolfan Gelfyddydau Glannau Gwy.

Y Cynghorydd Sir D.J. Mayor, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, perthynas agos yn weithiwr allgymorth.
Y Cynghorydd Sir D.W. Meredith, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, aelod o BBNPA, aelod o Fwrdd Theatr Brycheiniog, aelod o Gyngor Tref Aberhonddu ac aelod ymddeoledig o UNSAIN.
Y Cynghorydd Sir S. McNicholas, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir P.J. Medlicott, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir E.T. Morgan, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir W.J.T. Powell, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir D.R. Price, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir P.C. Pritchard, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir G.W. Ratcliffe, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir K.M. Roberts-Jones, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir J. Shearer, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir D.A. Thomas, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir D.G. Thomas, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, deiliad pàs bysiau, aelod o Sefydliad y Merched .
Y Cynghorydd Sir R.G. Thomas, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus gan fod perthynas agos yn ymwneud â Cherddorfa Ieuenctid Gogledd Powys.
Y Cynghorydd Sir W.B. Thomas, buddiant personol a rhagfarnus o ran anghenion dysgu ychwanegol, a hynny drwy ymwneud â sefydliad dyslecsia, a buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir T.G. Turner, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir T.J. Van Rees, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Hamdden Llanfair-ym-Muallt a Chadeirydd Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol.
Y Cynghorydd Sir G.P. Vaughan, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a buddiant personol a rhagfarnus yn rhinwedd gweithredwr trafnidiaeth ysgol.
Y Cynghorydd Sir D.H. Williams, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a buddiant personol a rhagfarnus gan fod perthynas personol agos yn gweithio mewn uned anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.

Y Cynghorydd Sir G. Williams, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr [nad yw'n gysylltiedig â'r Awdurdod Addysg Lleol] i ysgol Garth.
Y Cynghorydd Sir J.M. Williams, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, aelod o undeb llafur UNSAIN, ymddiriedolwr i Ganolfan Cyngor Bro Ddyfi, Partneriaeth Plant Gymunedol Machynlleth, Gweithredu Cymunedol Machynlleth sydd wedi cael arian gan y grant Gofal Cymdeithasol i Oedolion.
Y Cynghorydd Sir S.L. Williams, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol.
Y Cynghorydd Sir A. York, buddiant personol nad yw'n rhagfarnus yn rhinwedd llywodraethwr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac ymddiriedolwr i Ganolfan Gelfyddydau Glannau Gwy a buddiant personol a rhagfarnus yn rhinwedd ymddiriedolwr i PAVO nas penodwyd gan y Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **Y GYLLIDEB AR GYFER 2014-15, CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2014-17 A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2014-19** | **CC28 – 2014** |

Cyflwynodd Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad ar y Gyllideb, a oedd yn ymgorffori'r newidiadau a ddeilliodd o gyfarfod yr Arweinwyr Grŵp a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2014 [mae'r newidiadau wedi'u ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd]. Nododd yr Aelod Portffolio fod dau ddewis wedi'u cyflwyno i'w hystyried – Dewis 1: Cyllideb â chynnydd cymeradwy o 4.5% i Dreth y Cyngor gyda £224,000 yn cael ei ddefnyddio yn 2014/15 o'r cronfeydd wrth gefn; a Dewis 2: cyllideb â chynnydd cymeradwy o 4.95% i Dreth y Cyngor heb ddefnyddio dim o'r cronfeydd wrth gefn.

Mynegodd nifer o aelodau bryderon ynghylch rhoi'r gorau i gynhyrchu Barcud Coch, a gofynasant pa ddewisiadau eraill a oedd yn cael eu hystyried o ran cyfathrebu a'r cyhoedd. Gofynnodd Arweinydd Cynghrair Annibynnol Powys a fyddai'r Arweinydd yn cwrdd â'r Arweinwyr Grŵp i adolygu'r modd y mae'r Cyngor yn cyfathrebu â'r cyhoedd. Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn hapus i wneud hyn. Nododd Aelod Portffolio Adnoddau Dynol, TG a Chyfathrebu fod dulliau eraill, mwy costeffeithiol o gyfathrebu â'r cyhoedd..

Mynegodd yr aelodau fod angen i'r holl wasanaethau ymgynghori ag aelodau a'u cynnwys o ran newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Cadarnhaodd yr Arweinydd a'r Aelodau Portffolio y byddai'r aelodau'n cael eu cynnwys ac y byddai gwaith ymgynghori llawn yn mynd rhagddo â phob corff ar ôl i broses y gyllideb gael ei chwblhau.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch canolfannau dydd, nododd Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion nad oedd dim cynlluniau ar hyn o bryd i gau canolfannau dydd, ond roedd angen moderneiddio'r dull o ddarparu nifer o wasanaethau er mwyn ymdrin â newidiadau o ran anghenion pobl ac er mwyn cyflwyno'r arferion gorau. Fodd bynnag, ni allai warantu na fyddai hyn yn effeithio ar ganolfannau dydd dros y blynyddoedd nesaf. O ran canolfannau dydd ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio nad oedd dim cynigion i gau'r canolfannau hyn ond i wella gwasanaethau.

Cododd yr aelodau bryderon fod baich y gyllideb arfaethedig yn cael ei roi ar bobl dlawd yn y Sir. Gofynnodd yr aelodau pam na ellid defnyddio mwy o'r cronfeydd wrth gefn fel y gellid cefnogi gwasanaethau a sicrhau mai'r cynnydd lleiaf posibl a fyddai unrhyw gynnydd i Dreth y Cyngor. Nododd Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau fod Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd cyffredinol y dylai cronfeydd wrth gefn fod rhwng 3% a 5% o'r gyllideb net. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, 4.39% fyddai cronfeydd wrth gefn y Cyngor. Nododd fod risg ynghlwm wrth y gyllideb arfaethedig, oherwydd pe na ellid gwneud yr arbedion arfaethedig byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i lenwi'r bwlch ariannol.

Roedd nifer o'r aelodau o'r farn fod gohirio'r gwaith o ystyried y gyllideb wedi arwain at rai consesiynau, ond bod diffyg eglurder a manylion ynddi o hyd.

Gadawodd y Cynghorydd Sir T. Van-Rees y cyfarfod am 11.50 a.m.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y toriadau arfaethedig i gyllid ar gyfer theatrau, nododd Aelod Portffolio Comisiynu a Gwella y byddai trafodaethau'n cychwyn cyn gynted ag y bo modd â rheolwyr theatrau a chyrff sydd â diddordeb. Mewn ymateb i gwestiwn am y gwaith o baratoi'r gyllideb, nododd yr Arweinydd ei fod yn dymuno cychwyn y broses yn gynt ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a hynny o Ebrill 2014 mae'n debyg.

Mynegodd yr aelodau bryderon fod y gallu i ddefnyddio rhai gwasanaethau fel y gwasanaeth danfon prydau yn destun terfyn hyd nes y ceir canlyniad y gyllideb. Cadarnhaodd Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fod hyn wedi'i wneud drwy gamgymeriad a bod y sefyllfa wedi'i gwrthdroi, hynny yw, ni weithredir terfyn o ran y gallu i ddefnyddio'r gwasanaethau. Yn ystod y ddadl, cododd yr aelodau bryderon hefyd am gynigion mewn perthynas ag ystod o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau hamdden, grantiau, Parc Carafannau Wyeside, creu swyddi newydd ac Archifau'r Sir.

Cafodd Dewis 1 Cyllideb ar gyfer 2014/15 â chynnydd o 4.5% i Dreth y Cyngor ei gynnig a'i eilio yn briodol.

| **PENDERFYNWYD:** | **Y Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **1. Bod Dewis 1 Cyllideb ar gyfer 2014/15, a ddangosir yn y Model Adnoddau Ariannol yn Atodiad B, yn cael ei gytuno.** | **Gofyniad Statudol** |
| **2. Bod cynnydd o 4.5% i Dreth y Cyngor yn cael ei gynnig ar gyfer 2014/15.** | **Gofyniad Statudol** |

Cafodd Argymhellion 3 i 9 eu cynnig a'u heilio'n briodol.

| **PENDERFYNWYD:** | **Y Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **3. Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2015/16 a 2016/17 yn cael ei gytuno mewn egwyddor.** | **Cynorthwyo prosesau cynllunio busnes a'r gwaith o ddatblygu'r gyllideb dros dair blynedd.** |
| **4. Y BYDDAI'R terfyn benthyca** | **Gofyniad Statudol** |

| | |
|---|---|
| **awdurdodedig ar gyfer 2014/15 fel sy'n ofynnol o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn £241.7m.** | |
| **5. Bod y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2014/15 yn cael eu cymeradwyo.** | **Gofyniad Statudol** |
| **6. Bod Dewis 1 Model Rheoleiddiol ar gyfer cyfrifo'r isafswm darpariaeth refeniw (MRP) mewn perthynas â Benthyca â Chymorth yn cael ei ddefnyddio.** | **Gofyniad Statudol** |
| **7. Bod Dewis 3 y Dull Blwydd-dal Oes Asedau ar gyfer cyfrifo'r isafswm darpariaeth refeniw (MRP) mewn perthynas â Benthyca Darbodus yn cael ei ddefnyddio.** | **Gofyniad Statudol** |
| **8. Bod y canllaw sy'n caniatáu i'r isafswm darpariaeth refeniw (MRP) gael ei ohirio yn achos asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael ei ddefnyddio.** | **Er mwyn sicrhau bod cost yr isafswm darpariaeth refeniw yn cyfateb i'r defnydd a wna gwasanaeth o ased.** |
| **9. Bod y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2014/15 yn Atodiad D yn cael ei derbyn.** | **Gofyniad Statudol** |

Gan iddo ddatgan buddiant ariannol, gadawodd y Cynghorydd Sir H. Lewis y Siambr pan ystyriwyd yr hyn a ganlyn.

Cafodd Argymhelliad 10 ei gynnig a'i eilio'n briodol.

| PENDERFYNWYD: | Y Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **10. Bod Adolygiadau Strategol o Ddarpariaeth Ysgolion a Ffermydd Sirol yn parhau, a bod adolygiad strategol yng nghyswllt creu incwm yn cychwyn cyn gynted ag y bo modd, gydag adolygiadau strategol pellach mewn meysydd eraill yn cael eu dwyn ymlaen i'w hystyried gan y Cabinet.** | **Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gyflawni'r her ariannol sy'n deillio o'r lefel ostyngol o gyllid.** |

**J.H. BRUNT**
**CADEIRYDD**